**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-15

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-15

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

Pwy ydyn ni? .......... 6

Beth yw amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru? .......... 6

Sut aethom ati i graffu ar amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru? .......... 7

**2. Digonolrwydd amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2014-2015** .......... **8**

Amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2013-2015 .......... 8

Digonolrwydd yr amcangyfrifon er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol yr Ombwdsmon .......... 8

Cynllunio ar gyfer y dyfodol .......... 9

**3. Blaenoriaethu a gwerth am arian** .......... **10**

Cwynion ynghylch iechyd .......... 10

**4. Prosesau cyllidebol ac ariannol** .......... **12**

**Tystion** .......... **13**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **14**

## Rhagair y Cadeirydd

Ar ran y Pwyllgor Cyllid hoffwn groesawu amcangyfrifon yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2014-2015.

Mae'r amcangyfrifon wedi eu cyflwyno i ni gydag eglurder a thryloywder rhagorol.

Gwnaed argraff arnom gan allu'r Ombwdsmon i ymdrin â nifer cynyddol o gwynion bob blwyddyn heb gynyddu ei gostau yn sylweddol.

Mae'r Ombwdsmon wedi nodi ei fod yn debygol o ddychwelyd gyda chyllideb atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ariannu rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn. O ystyried yr amgylchiadau, mae hyn yn ymddangos yn gwbl briodol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y manylion hynny maes o law.

Rwy'n diolch i'r tystion ac i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor am eu cyfraniadau drwy gydol ein gwaith o graffu ar amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-2015.

# 1. Cyflwyniad

**Pwy ydyn ni?**

1. Pwyllgor trawsbleidiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cyllid, ac mae'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried ac adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio arno.

**Beth yw amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?**

3. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae gofyn i'r amcangyfrifon bennu pa adnoddau sydd eu hangen ar yr Ombwdsmon i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig) sy'n cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

4. Mae Rheol Sefydlog 20.23 yn nodi:

> "Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i'r pwyllgor cyfrifol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag."

5. Cafodd amcangyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer 2014-15 eu rhoi i'r Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref 2013.

6. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am adrodd ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.24 yn nodi:

> "Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ystyried yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo."[1]

## Sut aethom ati i graffu ar amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?

7. Trafodwyd amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ein cyfarfod ar 3 Hydref, 2013.

8. Yn y cyfarfod, cawsom dystiolaeth gan:

- Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu
- David Meaden, Cynghorwr Cyfreithiol.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2. Digonolrwydd amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2014-2015

### Amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2013-2015

9. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig yr Ombwdsmon yn nodi ei fod yn amcangyfrif cynnydd o **2.5%** mewn termau arian parod ar gyfer 2013-2014. Mae hynny'n gyfystyr â gofyniad arian parod net o £**102,000** ar gyfer 2014-15

10. Eglurodd yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor sut y cynhyrchodd y ffigurau ar gyfer ei amcangyfrif yn erbyn bloc Cymru:

> "The Welsh block figures we used in calculating the estimate last year were the ones that we took and compared with the Welsh block figure that we obtained from the Welsh Government for the coming financial year, and we then based our estimate on that. Clearly, there is movement on the Welsh block through the year, but we have taken a snapshot of the block at the same time as we took it last year and then based the estimate on the difference between the two.We were satisfied by the explanation put forward by the Ombudsman on how he reached his estimates."[2]

### Digonolrwydd yr amcangyfrifon er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol yr Ombwdsmon

11. Mae'r Ombwdsmon yn darparu gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw, sy'n gallu gwneud y lefel y gwaith yn anodd ei rhagweld. Roeddem yn teimlo bod y dull a ddefnyddir gan yr Ombwdsmon i amcangyfrif ei gyllideb yn briodol, ac rydym yn croesawu bod gwaith cynllunio ychwanegol wedi cael ei wneud yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar wasanaethau cymdeithasol a llesiant a'r cynydd tebygol yn y llwyth gwaith.

12. Roeddem yn teimlo bod y gyllideb a gynigiwyd yn realistig ac yn ddoeth yn yr hinsawdd bresennol, ac rydym yn croesawu'r dystiolaeth glir a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ac yng nghyfarfod y Pwyllgor.

---

[2] Para 169, Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref

## Cynllunio ar gyfer y dyfodol

13. Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor ei fod yn recriwtio aelod o staff ychwanegol i ddelio â'r cynnydd a ragwelir yn y gwaith yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, a'i fod yn disgwyl recriwtio aelod staff arall ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'n ymddangos bod y recriwtio hwn yn gymesur â gwaith cynyddol yr Ombwdsmon, ac rydym yn cydnabod y gallai fod angen adolygu cyllid ar gyfer staffio ymhellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

# 3. Blaenoriaethu a gwerth am arian

## Cwynion ynghylch iechyd

14. Mynegodd yr Ombwdsmon bryder ynghylch nifer y cwynion am wasanaethau iechyd a dderbyniwyd gan ei swyddfa, er gwaethaf y darpariaethau a wnaed ym Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. Dywedodd:

> "First of all, despite the changes that have been brought about through 'Putting Things Right', people still have the old mind-set about accepting liability. So, no matter how often you repeat that saying sorry does not mean saying you accept that you are liable for damages, people are still reluctant to say it and to say it at the point when it would be most meaningful, when the complaint arises."[3]

15. Fel Pwyllgor, roedd gennym ddiddordeb i glywed y dystiolaeth gan yr Ombwdsmon ynglŷn â sut y mae ei swyddfa wedi bod yn gweithio gyda byrddau iechyd i fynd i'r afael â chwynion yn briodol yn y lle cyntaf, fel anfon llythyrau blynyddol a chynnal cyfarfodydd blynyddol i ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn arbennig, rydym yn cefnogi sylw'r Ombwdsmon y dylai cyfarwyddwyr annibynnol ymchwilio i gwynion yn llawn, ac nid derbyn honiadau clinigwyr ar eu golwg. Rydym yn rhannu pryderon yr Ombwdsmon nad oes un pwynt cyswllt ar gyfer pob cwyn am y gwasanaeth iechyd, ac rydym yn cydnabod yr anawsterau y gall hyn eu cyflwyno.

16. Rydym yn croesawu'r enghraifft hon o wariant ataliol – gweithio'n rhagweithiol gyda'r byrddau iechyd i ddelio â chwynion yn y man cychwyn – a ddylai helpu i gadw'r nifer o gwynion sy'n cael eu dwyn i'r Ombwdsmon yn isel.

17. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod problemau parhaus gyda chwynion am y gwasanaeth iechyd, er gwaethaf y darpariaethau a wnaed yn y Mesur gwneud iawn am gamweddau'r GIG yn 2008. Rydym yn credu mai un ffordd i arafu'r cynnydd cyflym yn nifer y cwynion i'r Ombwdsmon fyddai i sefydliadau eraill sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol yn y lle cyntaf.

---

[3] Para 203, Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2013

18. Rydym o'r farn bod yr Ombwdsmon wedi rheoli'r nifer o gwynion yn dda iawn, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau ar ei gyllideb. Rydym yn croesawu ei agwedd gadarnhaol tuag at helpu sefydliadau eraill i wella eu gweithdrefnau a phrosesau cwyno.

**Cwynion blinderus**

19. Mynegodd y Pwyllgor bryder am achwynwyr blinderus sy'n ychwanegu at lwyth gwaith swyddfa'r Ombwdsmon. Awgrymwyd y dylid ystyried mabwysiadu polisi o enwi a chodi cywilydd ar achwynwyr fel dull posibl o atal hyn. Dywedodd yr Ombwdsmon y byddai'n ystyried hyn ymhellach ochr yn ochr â'r polisi presennol ar sut i fynd i'r afael â gweithredoedd annerbyniol.

# 4. Prosesau cyllidebol ac ariannol

20. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Ombwdsmon bod ei staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, mae rhai gweithwyr, y cawsant eu penodi cyn sefydlu swyddfa'r Ombwdsmon, yn dal i fod yn aelodau o gynllun pensiwn llywodraeth leol Cyngor Sir Caerdydd. Mae'r cynllun hwn mewn diffyg ac mae taliadau i wneud iawn am y diffyg hwn yn ymddangos yng nghyllideb yr Ombwdsmon. Dywedodd:

> "Mae sefyllfa ariannol y Cynllun wedi dirywio ers 31 Mawrth 2010 yn bennaf oherwydd dirywiad yn yr hinsawdd ariannol (sydd wedi effeithio ar enillion buddsoddiad gwirioneddol ers 31 Mawrth 2010 yn ogystal ag enillion disgwyliedig yn y dyfodol). Mae hyn wedi'i gydbwyso'n rhannol wrth i godiadau cyflog fod yn is na'r disgwyl a bod y diffyg yn y cyfraniadau wedi'i dalu ers 31 Mawrth 2010. Mae Actwari'r Cynllun yn amcangyfrif bod angen taliad ychwanegol o £149k i unioni'r sefyllfa ond ni phenderfynir yn derfynol ar yr union gyfraddau ar gyfer 2014/15 tan fis Mawrth 2014 er dylai'r canlyniadau rhagarweiniol o brisiad 2013 fod ar gael oddeutu canol mis Tachwedd."[4]

21. Nododd y Pwyllgor fwriad yr Ombwdsmon i gyflwyno cyllideb atodol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â'r diffyg yng nghynllun pensiwn llywodraeth leol Cyngor Sir Caerdydd, a bod trafodaethau eisoes ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.

22. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y nifer o gwynion a fydd yn codi o'r newidiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Ombwdsmon ystyried adnoddau staffio pan fydd yn cyflwyno cyllideb atodol. Byddem hefyd yn disgwyl iddo ystyried a fyddai unrhyw gynnydd mewn cwynion yn cael ei gynnal yn y tymor hwy, wrth iddo gyfrifo'r angen am staff ychwanegol.

---

[4] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: *Amcangyfrif ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2014-15*, 3 Hydref 2013 (para 7.3)

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

*3 Hydref 2013*

| | |
|---|---|
| Peter Tyndall | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Susan Hudson | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| David Meaden | Cynghorydd Ariannol ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListDocuments.aspx?CId=229&MId=1791&Ver=4

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
| --- | --- |
| Peter Tyndall<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | FIN(4)-15-13 Papur 3 |